Cyf. LIV | Mehefin 1954 | Rhif 6

YR YMOFYNNYDD

Cylchgrawn Misol Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

CYNNWYS

Gweddi
Watcyn Wyn—Y Gwr Doniol
Y Gweinidog
Melys Gofion am Weinidog Annwyl
Florence Nightingale
Maes Llafur, 1955
Hunangofiant Hen Gambo
Marwgofion
Priodasau
Newyddion yr Enwad
Y Cwpwrth Llyfrau



YR YMOFYNNYDD

Pris 6ch. y mis; drwy y Post, 7s. oc. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy'r Post.

Anfoner Erthyglau, Llyfrau i'w hadolygu, etc., i'r Golygydd—

Y Parch. D. JACOB DAVIES, B.A., Penrallt, 2, Tudor Terrace, Aberdâr.

Nodion a Marwgofion i gyrraedd y Golygydd erbyn y 15fed o'r mis

Pwyllgor Ymgynghori—Prifathro J. D. Jones, B.A., B.D.; Parchn. S. E. Bowen; E. G. Evans, B.A.; J. Islan Jones, M.A.; Simon Jones, B.A.; A. J. Martin, B.A.; Islwyn Pritchard, B.A.; J. Marles Thomas, M.A.; Lewis Williams; T. O. Williams, M.A.; Mr. W. S. Jones, M.A., M.Sc., a Mr. D. Jones.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwyr—

J. D. Lewis a'i Feibion, Swyddfa'r "Ymofynnydd", Llandysul

A GOLDEN TREASURY OF THE BIBLE (and Apocrypha).
Selected and edited by Mortimer Rowe, B.A., D.D. The best of the Bible and Apocrypha, in attractive and readable form. 9/6, by post 10/3; leather with gilt edges, 18/-, by post 18/9.

SHALL WE FOLLOW KARL BARTH.
By Sidney Spencer, B.A. 1/6, by post 1/8.

THE STORY AND SIGNIFICANCE OF THE UNITARIAN MOVEMENT.
By W. G. Tarrant, B.A. 1/6, by post 1/8.

UNITARIAN FAITH IN UNITARIAN HYMNS.
1/-, by post 1/2.

WE BELIEVE IN series.
Edited by G. Stephens Spinks, M.A., Ph.D., the set of six titles 1/6 by post 1/8.

Send for catalogue and lists of other series—

THE LINDSEY PRESS,
14, Gordon Square, London, W.C.1.

Yr Ymofynnydd

. . Cylchgrawn Misol . .

Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Golygyddd—Y Parch. D. JACOB DAVIES, B.A.

Cyfrol LIV. MEHEFIN 1954 Rhif 6

Gweddi

Ein Tad annwyl yr hwn sydd yn y nefoedd, boed i ryw ran gyfrin o'r nefoedd honno ymgartrefu yn ein calonnau a'n meddyliau ni yn awr. Diolch iti am bwrpas cysegredig yr awr weddi hon, ei hatgofion melys a'i dymuniadau mawr. Gofynnwn yn wylaidd am arddeliad ar ein gwasanaeth a boed i fendith defosiwn gerdded gyda ni drwy'r munudau sydd yn ein disgwyl. Diolch i ti am aelwyd gynnes yr hen gapel yma ac am bopeth a wnaeth i glymu aelwydydd y fro yng nghwlwm tangnefedd. Cofiwn yn ddiolchgar am y tadau a'r arloeswyr dewr a fu'n addoli ar y tir santaidd hwn. Gwna ni'n deilwng o'n treftadaeth a chrea ynom o'r newydd awydd am ddilyn ôl eu traed a llwybyr eu gweithredoedd ; boed yn wenau'r gwanwyn neu gysgod y gaeaf arnom, cadw ni'n ffyddlon i addewidion a dymuniadau'n gweddi. Gwna ni'n ddewr mewn dyletswydd, yn ddyfal mewn gwasanaeth ac yn ddiwyd mewn cymwynasgarwch. Disgynned dy ysbryd arnom fel y carom beth bynnag sydd bur, fel y dyrchafom beth bynnag sydd deilwng, fel y cysegrom bob dawn er daioni dyn a Duw. Diffodded pob anffyddiaeth, difoder pob anghydfod, gwywed pob gwawd a blodeued yn ein plith ddylanwad llaw agored cyfeillgarwch.

Cyflwynwn y capel hwn o'r newydd i ymchwiliad difrifol am y gwirionedd sy'n agor y drysau a thorri'r cadwyni. Cyflwynwn y capel hwn at wasanaeth crefydd cyfiawnder a chariad. Boed yn arweinydd i'r crwydryn, yn gysgod i'r amddifad ac yn seren gobaith i'r gwan ei galon. Dysg ni i gerdded y grisiau sy'n arwain o fywyd glân i'r ddinas loyw ac o'r ddinas loyw at y ddynoliaeth lawn. I'r diben hwn bywha dy waith yn ein plith fel bo'n tystiolaeth mewn gair a chymeriad yn dwyn parch ar ein proffes.

Gweddïwn yn dyner dros bawb sy'n wynebu adfyd a phoen,

Dros bawb lluddedig yn y wlad
Pob plentyn bach, pob mam a thad ;

dyro iddynt dy Nos Da, yn enwedig y rheiny sy'n ofni oriau blinion ar wely cystudd a gofid. Bydd yn gyfaill agos i'r rhai sydd mewn ymrafael â ' hiraeth mawr a hiraeth creulon ' a dyro gyffyrddiad tyner a chalon wresog i'r sawl sy'n gweini arnynt. Llifed dy gariad yn garedigrwydd i'n dwylo, yn lendid i'n cymeriad ac yn lawnder i'n rhoi.

Cofia'r byd yn ei ddryswch a dyro ewyllys newydd i'r arweinwyr fel y difoder gelyniaeth ac y diddymer casineb. Dyro iddynt ewyllys i gyffesu bai a maddau camwedd,

Na foed neb heb wybod am gariad y groes
A brodyr i'w gilydd fo dynion pob oes.

Cadw'n llygaid ar ystyr dwyfol y groes hon ac ar Iesu, Arglwydd y Bywyd Glân, a bendithia weinidogaeth yr oedfa yn ei enw a'i ysbryd ef. Amen.

Watcyn Wyn—Y Gwr Doniol

Yr oedd Watcyn Wyn yn un o gewri'r oes o'r blaen fel pregethwr, ysgolfeistr, bardd a llawer o bethau eraill, eithr fe gofir amdano yn fwy na dim efallai am ei ddonioldeb a'i wit—"*Wit Wat*" ys dywedodd rhywun. I brofi awch y wit yma cesglais rai o'r dywediadau ysmala a dadogir arno. Fe ddywedodd rai o'i bethau mwyaf deifiol wrth ei fyfyrwyr yn ei ysgol a dyma ddetholiad o'u plith a godwyd o hen rifyn o'r *Geninen.*

"Peidiwch gweiddi mewn gwaed oer neu fe aiff yr awr weddi yn yn awr *weiddi*".

"Astudiwch natur eglwys : y mae gan bob eglwys natur ffein a natur gas".

"Gwisgwch yn lanwedd, mae'n well gen i weld mwffler glân na choler brwnt".

"Mynnwch wybod y ffordd i'r colegau, ac mi ddyweda' i amser y trên wrthych pan fyddwch yn barod".

"Mae'ch rhagymadrodd chwi, Mr. Jones, yn ofnadwy o hir : all kite ddim mynd lan os bydd i gwt e'n rhy hir. Fachgen mae'r trên yn hwy na'r platfform".

"Os yw testun yn werth ei godi o gwbl, codwch ef i'w ddal, fel milgi Deio Cwmgarw yn codi ysgyfarnog a'i dal".

"Y Methodist yw'r pregethwr gorau, mae'n siarad heb ladd ei hunan. Trueni na fuaswn i yn bregethwr Methodist, mae'r peswch gen i erioed".

"Y gwaith caletaf y gwn i amdano yw cuddio anwybodaeth ; mae'n galetach gwaith o lawer na cheisio gwybodaeth".

"Pan fyddwch yn aros mewn ffermdy nos Sadwrn, ceisiwch gan ŵr y tŷ i'ch galw yn y bore, oherwydd nid "Greenwich Time" yw amser ffermwr, ond "amser godro", "amser bwydo" ac "amser dyletswydd '."

" 'Roedd cloc y tŷ cwrdd ys llawer dydd a'i wyneb y tu allan y capel yn dangos yr amser i fynd mewn ; mae cloc y tŷ cwrdd yn awr yn wynebu'r pregethwr gan ddweud ei bod yn bryd i fynd ma's".

"Peidwch wado'r Beibl wrth bregethu neu fe aiff yr oedfa yn shew *Punch and Judy*. Beth feddyliech chwi am ganwr yn wado'i gopi wrth ganu".

Clywais hefyd iddo ddywedyd wrth ei fyfyrwyr un tro, "Peidiwch galw ar fore dydd Llun gyda pherson oedd yn absennol o'r cwrdd y Sul a dweud, "Ble'r oe'ch chi ddoe" ; galwch y nos Sadwrn wedyn a dywedwch, "Fe gaf i'ch gweld chi fory '." Yr oedd yn medru chwarae â geiriau mewn englyn hefyd ac un o'r enghreifftiau gorau y gwn i amdano yw hwnnw a ganodd wrth gyfarch Syr Owen M. Edwards i Eisteddfod Genedlaethol 1894. Cofiwch fod pawb yn adnabod y gŵr mawr hwnnw fel "Owen M." a dyma'r englyn,

Owen M mae hyn i mi—yn M hardd
Ym mysg y teg feini ;
Mae Owen M. yn M i ni,
Yn M o ddyn am ddaioni.

Y Gweinidog

Yr Angen Mawr Am Fwy o Weinidogion.

Y mae un-ar-ddeg o eglwysi gwag gan yr Undodiaid yng Nghymru ar hyn o bryd a phedwar o fyfyrwyr sydd gennym yn y colegau. Fe ddaw un neu ddau o'r myfyrwyr yma allan at eu gwaith ymhen blwyddyn ac yn y cyfamser y mae un neu ddau o'n gweinidogion yn bygwth ymddeol a gall eraill ohonom symud neu gael ein symud. Dyna'r ffeithiau moel a thrist sydd yn ein wynebu a'r broblem hon oedd un o brif destunau'r Gymdeithas Gyffredinol yn Llundain fis Ebrill. Cwynir yn feunyddiol nad yw ein ieuenctid yn ymateb i'r alwad heddiw a mawr fu'r ymdrech i geisio deall paham. Ymdriniwyd â'r mater yn faith ac yn fanwl yn y Gymdeithas Gyffredinol ac yn y Gymdeithas Gymraeg ac y mae'r rhesymau a gynigiwyd yn hysbys ddigon i bawb. Dyma rai ohonynt, "Difaterwch", "Anialwch ysbrydol yr oes", "crefydd ffurfiol ar drai", ac yn olaf "y gydnabyddiaeth sâl". Cawsom genhadaeth i geisio

adnewyddu bywyd ysbrydol yr eglwysi ; cawsom weddïo taer am fendith ar y gwaith ac yn awr dyma'r Cymdeithasau, ill dwy, yn ceisio cyfarfod â'r gŵyn olaf i gyd. Fel yr enwadau a'r eglwysi yn gyffredin gŵyr ein mudiad ei fod yn rhwym o gadw ei weinidogion yn anrhydeddus a gwelodd y gall fod peth cysylltiad rhwng "yr angen am weinidogion" a *gweinidogion mewn angen*. Teg yw dywedyd fod yr Undodiaid wedi gofalu am eu gweinidogion gystal os nad yn well na'r unrhyw fudiad arall yng Nghymru yn y gorffennol, ond yn y blynyddoedd diwethaf hyn fe gododd costau byw yn aruthrol. Y trasiedi mawr yw fod llanw'r costau wedi digwydd yn yr un tymor â'r trai mewn rhif aelodaeth. Ond boed hynny fel y bo y mae'r mudiad wedi penderfynu gwneud ymdrech deg i godi safon y gydnabyddiaeth. Derbyniwyd y penderfyniad yn Llundain ac fe'i cefnogwyd yng Nghyrddau Blynyddol Trebanos.

Safon Cydnabyddiaeth y Gweinidog.

Dyma'r penderfyniad,

"Gweinidogaeth amser-llawn (un eglwys neu fwy). Dyma'r gydnabyddiaeth a gyfrifir yn rhesymol :

(*a*) Lleiafswm y gydnabyddiaeth i fod yn £375 i weinidog na wasanaethodd fwy na phum mlynedd yn y weinidogaeth ; y lleiafswm i godi i £450 o hynny allan.

(*b*) Yn ychwanegol dylid darparu tŷ ar gyfer y gweinidog neu roi lwans ar gyfer ei rent. Os yw'r tŷ ar gael dyma amcangyfrif o'i werth :

Tŷ di-rent yn y wlad, £40 ; mewn tref wledig, £50.

Tŷ di-rent a di-dreth, £56 ; mewn tref wledig £70.

(Lle nad oes dŷ felly, dylid ychwanegu'r symiau uchod at leiafswm y gydnabyddiaeth—(*a*).

(*c*) Dylid cydnabod y treuliau canlynol :

(i) Treuliau cyffredinol (megis traul car at y gwaith).

(ii) Rhent teliffôn.

(iii) Hanner y tâl insiwrans cenedlaethol.

(iv) Y gyfran ddyledus tuag at y Gronfa Bensiwn.

Rhaid egluro na ellir disgwyl grantiau ychwanegol oddi wrth y Gymdeithas Gyffredinol i gwrdd â gofynion y penderfyniad hwn. Gofyn, felly, am ymdrech arbennig ar ran pob cynulleidfa.

Yr Alwad i Fechgyn a Merched Ifainc.

Yn ei araith, "Rhagom" oedd byrdwn apêl Mr. S. R. Butler (Caerdydd) y Llywydd am eleni. Yr oedd yn sicr, meddai, y caem ymateb da oddi wrth fechgyn a merched ifainc pe gallem osod y sefyllfa ger eu bron mewn modd eglur a dwys. Er gwaethaf y gwobrau disglair a gynigir gan swyddi masnachol a diwydiannol byddai rhai o hyd, a'r goreuon yn eu plith, yn barod i roi gwran-

dawiad i *alwad* y weinidogaeth. Y mae yn ddyletswydd ar weinidogion ac arweinwyr mewn Ysgol Sul a Chapel i wneud yr alwad yn nôd a'r gwaith yn ddeniadol. A gaf finnau ychwanegu at hyn alwad nodedig yr Eglwys yng Nghymru a gyhoeddwyd beth amser yn ôl. Newidir rhai geiriau yn unig at ein pwrpas ni.

"Cofiwch bod eich angen arnom ac y mae yn angen dirfawr. Y mae ein mudiad yn brin o ddynion a all gyflawni ei waith.

Y mae angen gweinidogion arnom i ddysgu efengyl Iesu i blant a rhai mewn oed. Y mae angen gweinidogion arnom i ddangos ei gariad dwyfol mewn gwlad a thref. Y mae angen gweinidogion arnom i ddod a dynion eto yn wylaidd at Dduw yng nghymdeithas ein eglwysi fel y tyfont ac y bônt gryf.

A ydych chwi yn ŵr neu wraig ifanc sy'n teimlo y gallwch gyflawni'r gwaith hwn? Os ydych, na thwyllwch eich hunain, oblegid fe ofyn y gwaith hwn am bopeth sydd gennych a phob talent sydd eiddoch. Bydd gwaith hyd at ymlâdd i ddoniau eich ysbryd, eich corff, eich meddwl, eich dawn siarad a'ch dawn gerddorol, crefft eich dwylo a chryfder eich cyfeillgarwch ynghyd â'ch synnwyr cyffredin a'ch boneddigeiddrwydd. Ac ar ddiwedd diwrnod o waith fel gweinidog cewch wybod beth yw bod yn llwyr-flinedig mewn corff, ymennydd ac ysbryd ; ond cewch wybod hefyd beth yw gwir hapusrwydd y gŵr a roes o'i nerth ar alwad Duw".

Aed yr alwad ar dân drwy ein eglwysi a gweddïer yn ddwys am ystyriaeth ddifrifol o alwad Duw am weithwyr da. Fechgyn a merched ifainc Aberdâr a Threbanos, Cefn Coed ac Aberystwyth a chwithau o hil pendefigion y Smotyn Du ! Gwrandewch ! Y mae angen gwŷr a gwragedd i sefyll yn nhraddodiad Tomos Glyn Cothi, Dafis Castellhywel, Gwilym Marles, Dafydd Llwyd, Bryn-llefrith, David Jenkin Rees, Lloyd Jack a John Jones o Aberdâr ! Y mae angen arloeswyr a diwygwyr, y mae angen gweision tangnefedd a phroffwydi brawdgarwch. Cewch gyfeillach y goreuon a chefnogaeth gwerin gyfan ; cewch barch yn eich gwaith ac anrhydedd yn eich bro a bendith na ŵyr y byd amdani ar derfyn dydd. Ofer disgwyl am ddiwygiad mewn crefydd nac unman arall—rhaid *creu* diwygiad a gennych chwi, dan fendith Duw, y mae'r gallu.

PAHAM NAD AF I'R SINEMA.

(*O Gylchgrawn eglwys Unity, Sheffield*).

(1) Nid yw'r manijer byth yn galw i'm gweld.

(2) Euthum yno rai troeon ond ni siaradodd neb â fi. Nid oedd y gynulleidfa yn gyfeillgar o gwbl.

(3) Bob tro y bûm yno yr oeddynt yn gofyn am arian.

(4) Yr oedd y perfformiad yn rhy hir o lawer. Ni allaf eistedd am ddwy awr a hanner heb symud.

Melys gofion am Weinidog Annwyl, Y Parch. Lewis Williams

GORCHWYL anodd iawn yw ysgrifennu teyrnged deilwng i ŵr y cawsom ei gwmni a'i wasanaeth am hanner canrif. Cofiwn am ei wasanaeth nid yn unig i'w gynulleidfaoedd ei hun onc hefyd ei wasanaeth i ardaloedd cyfan yng nghylch ei weinidogaeth Nid pregethwr enwad oedd Mr. Williams oblegid yr oedd ei urddas arbennig yn ennyn parch a chariad ato o'r tu draw i bob ffin a gedy fwlch nas gellir ei lanw yn hawdd. Cofiaf amdano yn pregethu mewn Cwrdd Diolchgarwch am y Cynhaeaf a phan oedd yn darllen o Lyfr Esiah gallech glywed pin yn disgyn gan effaith ei ddarlleniad ar yr oedfa lawn. "Dyna beth oedd tynnu'r Nefoedd i lawr", meddai un o'r gwrandawyr. Ond boed gynulliad bach neu fawr boed gartref neu oddi cartref yr oedd ar ei orau glas dros y nôd uchel a'r pethau gorau bob tro. Cofiaf un aelod yn cwyno wrth y llall am ei fyd un tro a hwnnw'n gofyn iddo, "Yn *lle* pwy y caret ti fod ?" Yntau yn enwi rhyw berson, ond â'r un anadl yn dywedyd "Ni charwn farw yn ei *le* !" "Dyna ti", meddai'r cyfaill, mae pregethau Mr. Williams wedi cael gafael ynot !" Y mae'r bregeth fawr yn sicr o'i thir da rywbryd ac yn sicr o ddwyn ei ffrwyth hefyd Ac yn bennaf dim yr oedd *cymeriad da* yn anrhydedd a chalondid i'r gweinidog.

Rhaid i ni barchu'r gweinidog a chydweithio ag ef a gwneud popeth yn hwylus er ei fwyn tra bo gyda ni, oherwydd caled yw byd gweinidog ar y gorau.

Clywais amdano yn ymweld ag Ysbyty Aberystwyth un tro a sefyll ar ganol y ward a meddai wrth gyfaill, " 'Does yma neb yr wyf yn ei adnabod".

"Oes, oes, Mr. Williams bach", meddai llais o'r gwely. "Dewch ymlaen, mae gweld eich wyneb siriol yn donic i ni gyd !" Braint gweinidog yw adnabod, braint fwy yw cael ei adnabod a'i gydnabod.

Diolchwn fel enwad am ei oes lafurus yn ein plith a chyflwynwn i Mrs. Williams a'r teulu ein cydymdeimlad tyner yn eu galar. Cofiwn am eu gwasanaeth hwythau, am y gofal a'r nerth a'r ysbrydiaeth a roddasant iddo yn y dyddiau caled a'r gwaith mawr.

Y mae'r cof melys amdano yn gwneud y daith sydd ar ôl yn ganllaw clir i'r Ganaan fry.

F.D.

Florence Nightingale

BEDAIR-blynedd-a-deugain yn ôl y bu farw Florence Nightingale a chan mlynedd i eleni y torrodd y ferch enwog hon dir newydd wrth fynd i wasanaethu fel nyrs ar faes rhyfel y Crimea. Hannai o deulu cyfoethog a'i thadcu oedd William Smith, Aelod Seneddol ac Undodwr blaengar a gofir am ei ran yn y mesur i ryddhau'r caethion a'i waith dros ennill rhydd-freiniaeth i'r Undodwr fel y gallai wasanaethu mewn swydd wladol. Mewn oes pan nad oedd barch i weinyddes teimlodd Florence Nightingale yr alwad i'r gwaith a thrwy ei hymdrechion dechreuodd cyfnod newydd yn hanes yr alwedigaeth. Yr oedd yn ferch i deulu Undodaidd ac fe'i codwyd yn Undodwraig ac er na chafodd gyfle i addoli yn un o'n capeli am y rhan helaethaf o'i hoes, eto teimlwn mai un o'n plant ni ydoedd. Un o resymau pennaf yr awdurdodau dros wrthwynebu iddi fynd allan i'r Crimea oedd y tybid ei bod yn Undodwraig. Pan aeth allan yr oedd 44 o bob cant o'r clwyfedig yn marw o'u clwyfau ; ymhen blwyddyn nid oedd ond dau y cant yn cael eu colli. Cofir amdani yno fel "*The Lady with a lomp*" a daeth yn ôl a'r lamp gyda hi i oleuo tywyllwch ysbytai Prydain. "Dengys fy mywyd meddai, "sut y gall merch o alluoedd cyffredin fel myfi gael ei harwain gan Dduw i gerdded llwybrau newydd ac anghyffredin".

"Because the road was steep and long
And through a dark and lonely land,
God set upon my lips a song
And put a lantern in my hand".

Hunangofiant Hen Gambo

(*Buddugol yn Eisteddfod Pontydefaid Rhagfyr 5, 1953*).

Gan D. ISFOEL JONES, "Cilie."

GODDEFER i mi ar y dechrau ymddiheurio i fwyafrif o gofianwyr Cymru am eu hefelychu wrth ddechrau ysgrifennu fy nghofiant, gyda'r unig wahaniaeth trwy nodi fe'm "lluniwyd" yn lle fe'm "ganed".

Lluniwyd fi gan Rŷs y saer, saer gwlad o'r hen urdd werinol, syml, yn y naw degau o'r ganrif ddiwethaf. Dyn a oedd iddo air da a pharch diffuant gan bawb, ac fel codiad a chlod iddo fe'i gelwid yn gyffredin yn "Rhŷs y sâr deri". Dyn cryf, cymalog anghyffredin

oedd Rhys, tawedog ac yn meindio ei fusnes ei hun. Yr oedd ei enw yn ddigon o wystl y byddai unrhyw declyn a ddaethai trwy ei law yn berffaith, yn ddidwyll, cadarn a pharhaol.

Derw yw prif ffram fy nghorff innau ag eithrio'r siafftiau (o'r larswydden—*larch*—y gwnaed y siafftiau). Gair wrth basio.— Dywedid bod Rhŷs y saer yn ffefryn mawr gan hen sgweiar y Wern, ac y cawsai ryddid i fyned i'w allt a dewis y pren a fynnai, pryd y mynnai.

Cofiaf yn dda amdano yn ymlafnio, bwyello, morteisio a phlamio ar lofft yr hen felin ; yn sŵn grŵn undonog y meini, a'r gogrynnwr yn curo'r amser yn ddidor.

Ni wnâi dim y tro iddo ef ond perffeithrwydd,—pob tafod yn ffitio yn dynn yn ei fortais fel petaent wedi tyfu yn eu lle, heb na sigl na phwti yn un o'm cymalau. 'Rwy'n ymdroi gyda'r manylion hyn fel yr ymdry'r Cofiannydd sy'n bragian gwreiddiau ei dylwyth a hefyd fel siars a gwers i seiri sbriws yr oes hon !

Fe'm cwblhawyd ymhen hir a hwyr. Paentiwyd y panylau yn wyrdd-golau a'r tumewn yn goch ynghŷd â'r siafftiau o'r un lliw, ac, esgusodwch fi, yr oeddwn yn destun edmygedd i bob llygad, a meddyliwn yn falch ohonof fy hun fel y dygid fi allan ar fy ochr trwy'r drws a'm gosod ar olwynion a oedd yn disgwyl amdanaf o'r tu allan. Tybiwn fod yr olwynion yn teimlo ychydig yn yswil wrth weld gosod y fath foneddiges ar eu cefn, ac yn wir, teimlwn innau dipyn o anfri ac amarch er bod yr olwynion o wneuthuriad cadarn ac yn hollol rapâr. Teimlo 'roeddwn fel merch ieuanc newydd ddod adre o Lundain yn cerdded ym mraich ei thad i'w phriodi. Dyl asent fod wedi cael cot o baent beth bynnag, onid yw tipyn o baent yn boddhau popeth ! Cofiaf yn dda am y wedd foddhaus oedd ar wyneb fy meistr ar y ffordd adre'r bore hwnnw, yn eistedd ar fy ysgwydd a'i draed ar y siafft, a'i bibell yn ei geg, gan dybied mai ef oedd *lord of the manor* y bore hwnnw. Mis Mehefin hirfelyn haf oedd hi ac fel y gweddai i ladi fel myfi, cywain gwair oedd y gorchwyl cyntaf a gefais, popeth yn lân ac yn sych a gwresog, ac o hyn ymlaen ni allaf groniclo hanes fy mywyd yn well an thrwy nod digwyddiadau mwyaf arbennig yr yrfa.

Cefais barch mawr gan bob aelod o'r teulu am ysbaid faith tra 'roeddwn yn newydd, a graen crefft ac artist yn aros yn amlwg cawswn y lle gorau yn y cartws, a mawr fu'r gofal na thrawai dim wrthyf a llychwino'r paent. Golchid fy wyneb a'm corff hyd y trae pan fyddai'r brycheuyn lleiaf yn aros arnaf, ac edrychid arnaf gyda balchter teilwng, ond ni pharhaodd hynny am byth, aeth y paent a'r sglein yn llai graenus gyda threigl amser ac amrywiaeth gorch wylion. Fe synhwyrwn ymlaen llaw pan fyddai taith arbennig yn fy aros. Daethai'r meistr a'r gwas i'r cartws ar fin hwyr a'r po gresh ac iro fy nghymalau a thynnu fy olwynion i ffwrdd, un ar y

tro, a dabio trwch o ired ar fy echel er hwyluso gwaith y ceffyl ac i atal y gwichian traddodiadol, a hefyd iro pontydd y siafftiau fel ag i redeg yn llithrig gyda'r cadwyni.

Deallwn neges y siwrnai pan daenent y rhwyd droswy wedi gosod coflaid o wellt yn fy mol, a gwyddwn fod taith annymunol o'm blaen trannoeth, a pharatown i ddygymod â'r drewdod a'r terfysg. Taith o bymtheg milltir oedd yn fy aros i ddwyn llwyth o foch rheibus i Landysul neu i Henllan.

Druan o'r hen Fowler anfarwol, efe'r hen geffyl tirion a chadarn a fuasai rhwng fy siafftiau yn ddi-eithriad yn y blynyddoedd cynnar, llwyd hynny. Cymerai i ni bedair awr ar y ffordd, a phedair arall i ddychwelyd. Teimlwn yn flin am y ceffylau, fy meistr neu y gwas, a gwyddwn eu bod ar newynnu, ac yn aml yn wlyb hyd y croen. Gofidiwn hefyd am fy nghyflwr fy hun, â staen tylcaidd y gadareniaid yn llychwino fy ystlysau, a'u harogl gwrthwyneblyd yn llanw fy ffroenau. Cefais amryw o'r siwrneion hyn, fynychaf yn hwylus a di-ddigwyddiad, a phryd arall, terfysg a damwain.

Mae un tro yn sefyll allan yn fy nghof yn annileadwy. Aethai fy meistr a thorred o berchyll ar antur i'w gwerthu yn y Ceinewydd, ac wedi cyrraedd danfonai y llefydd (*crier*) allan i hysbysu fod llwyth o berchyll ar werth ar bwys y Blue Bell. (Cawsai pobl y dre gadw mochyn yn yr oes honno). Roedd ei fab gyda fy meistr, i aros gyda'r moch tra fyddai ef yn chwilio prynwyr, crwtyn bach tua naw oed. Yr oedd ynof tua dwsin o berchyll, ond ni fu hwyl fawr o gwbl ar fargeinio, a daeth y nos pan nad oedd ond dau wedi eu gwerthu, a golygai hynny fy mod i'w dwyn adre drachefn, a dyna ddechrau'r helynt. Gwyddwn wrth y carlamu fod dropyn yn ormod ym mol fy meistr, ac os iawn y cofiaf, caseg ysgafn oedd yn fy siafftiau'r dydd hwnnw, a phan gawsem heol wastad cawsai Hornet y chwip oni fyddai'r gwreichion yn tasgu o'r ffordd, ac ar garlam wyllt y daethom hyd at y "tafarn bach". Codai'r olwynion yn glir o'r heol, ac onibae fod rhwyd dros y cart buasai pob porchell ar yr heol ers amser, neidient fel petaent mewn dawns, ond clywch y rhan chwerwaf o'r stori ! Tybiaf fod fy meistr mor sychedig fel nad oedd ganddo amser i droi yn drefnus at ddrws y dafarn, ond trodd mor sydyn fel yr aeth fy olwyn dros gornel y clawdd ; aeth y gaseg a minnau yn llanast ar ein hochrau, a'r moch allan rywsut ac ar grwydr yn y pentref, a'r mab, ni wnaeth ond prin neidio yn glir mewn pryd na fuasai o danaf. Rhuthrai fy meistr trwy'r drws braidd cyn gweld y trychineb, ond yr oedd yno ddigon o gwmni ar amrantiad, a rhai ohonynt yn gwybod sut i weithredu mewn amgylchiad felly.

Ni fu erioed y fath banig. Daethai'r bobl yno o bob cyfeiriad gan fod peth o'r fath wrth fodd eu calon, a phob un a'i gynllun er cael y gaseg ar ei thraed, ac yn eu plith un hen ferch, amheus ei

chymeriad a miniog a brwnt ei thafod. Mae ei geiriau croch yn fy nghlustiau'r munud yma,—"llifiwch y siafft i gael y gaseg druan fach ar ei thraed a bwrwch y meddwyn d—— at y moch", a llawer ychwaneg ac yn ei hiaith ei hun !

Codwyd y gaseg a minnau o'r diwedd a chefais fy nhroed o danaf ac nid oeddwn nemor gwaeth, ond cafwyd cryn drafferth i ddwyn y perchyll at ei gilydd ac o dan y rhwyd eto, ond cafwyd pethau i drefn yn weddol o'r diwedd a ffwrdd a ni ar garlam tua thre. Canai fy meistr nerth ei geg wrth basio Cwmgwybed, bennill o waith y teilwr a oedd yn trigo yno—

"O na bawn i'n Sali, cael dreifo'r cart a'r donci,
Lan i'r Cei a nôl ffor' hyn, a'r asyn gwyn a'r twrci".

Honno oedd y storm fwyaf y bûm ynddi erioed. Bu tynnu mawr ar goes fy meistr ynghylch y noson honno, a chlywais ef yn dweud droeon mewn cwmni wrth sôn am y tro, fod cymdeithas anrhydeddus wedi cyfarfod y noson honno, a bod yno offeiriaid, lefiaid a diawliaid, a gwyddai pawb at bwy y cyfeiriai.

Ni fuasai nemor i ddiwrnod nad oeddwn allan ac o dan lwyth o ryw fath,—cywain coed, giwano, glo, pynnau llafur a thato, etc., ac ar ddydd mudfa, O ! 'roedd yn rhaid cael yr hen gambo fawr i gario dodrefn trwm, a chawswn ambell drot fywiog yn hwyl draddodiadol yr achlysur. Rhaid i mi adde i mi gael amser da iawn ar y cyfan, ac fe gawswn ambell hoe flasus yn ystod y gaeaf pan ddygid fy olwynion ymaith a'u gosod o dan y cart bwrw dom, a chawswn bwyso ar y wal yn hapus ar fy ochr, ac yno y cawswn fod am ysbaid yn cael fy nghefn ataf a gwrando hynt y ceirti eraill. Cyn hir, fe synhwyrwn fod fy nhro innau yn dod eto. Clywn aroglau'r gwair a sŵn y peiriannau yn awyr las yr haf, ac ar fyrder yr oeddwn ar fy olwynion eto yn cywain y gwair, a'r gwas mawr yn chwibanu yn ei falchder. Er cadarned fy esgeiriau, rhaid imi gyfaddef eu bod yn tuchan ac yn gwegian weithiau o dan lwyth trwm o wair sgant neu dunnell a hanner o faniwer, ond anaml y byddai hynny. Aethai Wil a Sara'r forwyn i gyrchu llwyth ysgafn o grafion o'r banc neu gyforyn o ffaebys i'r lloi, a chawsent hwyl i ryfeddu, a'r hen gel bach yn ei chymryd yn hamddenol. Gallaswn ddweud llawer ond yr wyf wedi dysgu dal fy nhafod ac yr wyf yn medru cadw cyfrinach !

Rhaid i mi gael dweud un stori eto, tro trwsgl arall, pan aeth Wil a minnau i ben y banc i gyrchu hwrdd a fuasai farw, a phan oedd Wil yn ei ffwdan yn ceisio codi'r corff i mewn, dyma rywun yn tanio ergyd o ddryll yr ochr arall i'r clawdd, a'r hen gaseg,—Gin wrth ei henw yn cymeryd braw a ffwrdd â hi am adre nerth ei charnau heb yr hwrdd a heb Wil chwaith, ond ar y tro i'r heol cefais fy hun wyneb i waered a chlywn yr olwynion yn troi'n chwyrn yn eu herfa am yn hir, a'r hen Gin druan ar asgwrn ei chefn a'i baglau

yn gorffwys yn llonydd ar ei thor. Torrodd y ddwy siafft yn y bôn y tro hwn a chafwyd siom fawr. Pan ddaeth Wil i'r fan, 'roedd ei wyneb fel y wal ac yn crynu yn druenus, ond gyda help o rywle cafwyd y gaseg a minnau ar ein traed unwaith eto, rhwymwyd fy siafftau a'm dwyn yn glwyfedig adre.

Daeth saer i'm hatgyweirio, saer ifanc. Yr oedd yr hen Rŷs wedi mynd at ei dadau. Cadarnhawyd fy mreichiau yn o lew a dabio tipyn o baent ar y graith. Ni theimlais mor gadarn byth wedyn. Wrth ddwyn llwyth o foch i'r farchnad, fe deimlwn wendid pan fyddai'r moch yn terfysgu a rhuthro yn ôl ac ymlaen, ac ni wyddwn pa funud y buasai'r moch a minnau yn llanast pendramwnwgl ar y ffordd.

Cefais aml i brynhawn hyfryd ar lan y môr pan fyddai'r amaethwyr a phobl yr ardal yn cynnal eu te parti blynyddol rhwng y ddau gynhaeaf. Yr oedd y lle yn llawn o gamboau y diwrnod hwnnw, ond fe gawswn i'r lle blaenaf yn yr hen odyn galch, a'r hen Bowler a rhaff am ei wddf wedi ei glymu wrth fy olwyn, ac ysgub o ffacbys o'i flaen i'w gadw'n fodlon. Cawson weld y panorama i gyd,—pob teulu yn taenu ei liain mawr ar y tywod, Wil y gwas yn berwi'r tegil wedi ei bontio ar ddwy garreg fawr a thân o dano. Y basgedi mawrion â'u llond o dorthau bara cyrens, cosyn a dysglaid fawr o ymenyn a phob un yn gwledda wrth ei fodd. Hoffwn yn fawr eu gwylio yn ymolchi yn y môr, y dyrfa yn gytun yn y dŵr, y bechgyn yr ochr hyn a'r merched yr ochr draw,—nid oedd trochi cymysg yn weddus yn yr oes honno,—a sylwaswn nad oedd ambell un yn barticlar am fod yn weddus. O gyfri popeth, dyna'r prynhawn gorau i mi o brynhawnau fy mywyd, ond rhaid oedd troi am adre, gan fod amser godro wedi dod a'r haul yntau yn dirwyn i'w derfyn. 'Roedd fy llwyth dipyn yn ysgafnach ar fy ffordd adre gan y byddai'r mwyafrif yn aros yn y rhialtwch a'r miri hyd nas gwyddwn pryd.

Gallaf ymffrostio i mi fod yn y gymanfa tair sir un waith, yn Aberaeron, a chlywed Herber yn pregethu a hefyd D.S.D., Caerfyrddin, pan roddai'r gymhariaeth bert am Dr. Bush yn cyfarch dillad Dr. Bush. Cawswn driniaeth foneddigedd ar yr achlysur hwn, a theithio yn hamddenol a di-dwrw, a phan oeddwn yn gymharol newydd oedd hyn wrth gwrs. Dro arall, euthum a llwyth o bobl frwdfrydig, a penboeth a direswm i gwrdd politicaidd yn Nhregaron, a chael aros wrth droed "Henry" ar y sgwar, a chael yr anrhydedd o fod yn rostrwm i Dafydd Dafis, Llandinam i ecspowndio'i athrawiaeth. Dyna pryd y clywais y pennill—

Danfonwch Daniel Rowland
I'r senedd, dyna'r dyn ;
A Llandinam i'r relwe,
Bob un i'w le ei hun !

Mae'n flin gennyf na allaf ddweud i'r llwyth oedd gennyf y tro hwn ymddwyn mor barchus, ond cefais gyfle i sylwi sut y gall dynion drawsnewid eu hagwedd i'r amgylchiadau a thwyllo ei gilydd, canys yr un personau oedd y ddau lwyth.

Y mae gennyf brofiad o ddwyn arch i'r fynwent hefyd, ond unwaith yn unig y bu hynny yn fy hanes, ac am y rheswm fod y ffordd a arweiniai i fwthyn y trancedig yn rhy ddyrus a chul i'r elorgerbyd dramwy drosti.

Cawswn barch mawr yn yr oes honno, hafal i'r parch a delir i'r A.40 neu y Vauxhall heddiw, ond ni all ffermwr sidan yr oes hon werthfawrogi na sylweddoli gogoniant oes aur y gambo. Be' wyddant hwy am godi yn fore i ddwyn llwyth o foch i Landysul neu i Lanybydder ! A phe'r elent a llwyth yno byddai rhaid iddynt aros yno dros nos gan y byddai eu horiau gwaith drosodd cyn cychwyn yn eu holau !

Rhoddasid fi ar fenthyg i gymdogion weithiau pan fyddai rhyw daith arbennig yn y drefn, a chefais aml i gyfle i weld sut y trinir teclyn benthyg. Ni pharchent fi fel y gwnâi fy meistr, nid oeddent yn ofalus rhag sgathru fy mhaent, bwrient bethau trymion i mewn yn drwsgl gan anafu fy llawr, a gollwng fy siafftau i gwympo yn eu nerth nes crynu ac amharu fy holl gyfansoddiad, a phan gofient, dychwelent fi heb gymaint a golchi fy wyneb a'm bol heb sôn am fy olwynion, a diwedd y stori wrth gwrs,—"diolch yn fawr" !

Y NOSTALGIA.

Daeth tro ar fyd ac arferion. Cefais aros yn yr unfan am ddeng mlynedd o leiaf onid aeth fy nghymalau yn gwsg a marw, a rhyw dwrw annaearol yn fy mhoeni. Penderfynais fod fy oes wedi dirwyn i ben ac nad oedd wasanaeth na chenhadaeth i mi mwyach. Daethai rhyw anghenfil mawr afrosgo i gyrchu'r moch, y da a'r defaid, a daethai rhyw gerbyd anferth arall â llwyth o faniwer a glo a'i arllwys yn bryfoclyd o agos i'm traed, fel yn awgrymu mor ddigwnt oedd ohonwy, a daethai rhyw greadur trystfawr, myglyd, drewllyd i gysgu'r nos wrth fy ochr, a rhyw drychiolaeth marwaidd ac anorffenedig wrth ei gynffon. Dyma'r teclyn haerllug a osododd ei droed ar fy ngwddf i, ac ni fu byth gennyf olwg ar y Ford penuchel yna, na'i fab 'chwaith !

'Roedd rhwydi prydferth wedi eu taenau dros fy holl gorff fel amwisg barchus. Nid rhwyd foch y tro hwn, ac yr oedd y pryf copyn wedi magu cenhedlaeth ar ôl cenhedlaeth i'w hil yn nirgelion fy nghyfansoddiad, a'r iâr hithau wedi dodwy cannoedd o wyau a deor mewn hedd yn y gongl.

Hyn a'm cysurai, nad oeddwn yn hollol ddifudd wedi'r cyfan yn nhawelwch fy ymneilltuaeth. Gorffwyswn yn dawel, a deuthum yn hollol fodlon ar fy myd hyd oni ddaeth rhyw derfysg dychrynllyd

er's tua mis yn ôl pan ddaeth Wil y gwas, a yntau yn hen ŵr bellach, â brws cwrs ac ysgubo'r cwbl allan a gyrru'r cornithiaid yn dorfeydd i'w ffordd, golchi tipyn arnaf, ni chawswn *fath* er's talm o ddyddiau gosod ychydig ired ar fy nghymalau fel yn yr hen ddyddiau, a daeth pregethwr a elwir ocsiwnêr ar fy mwrdd gan weithio yn huawdl am rinweddau fy mrodyr a'm chwiorydd olwynog, a sôn yn gelfydd am y rhamant a fu gan eu taro i lawr un ar ôl y llall am brisiau digalon, ac yn olaf, adroddai fy rhinweddau innau mewn hwyl fawr ac yna fy nharo innau i lawr aer fy siom am bris cywilyddus, a bydd ergyd ei forthwyl yn fy syfrdanu tra bwy'. 'Rwyf bellach mewn cartref newydd, ac nid oes gennyf amcan beth fydd fy niwedd.

Maes Llafur yr Ysgolion Sul, 1955

Safon I. Dan 9 oed. Llafar. "Dyddiau'r Iesu" gan Jennie Thomas. Yr ail ris. Tud. 1—12. Gwaith dysgu ar gof : Geiriau'r emyn—"Plentyn Iesu", tri phennill. Rhif 476 yn y Perlau Moliant.

Safon II. 9—12 oed. Llafar neu Ysgrifenedig : "Dyddiau Nasareth" gan Nansi Roberts. Y Trydydd Gris. Tud. 19—30. Gwaith Dysgu ar Gof : Y Gwynfydau, Math. v, 1—12.

Safon III. 12—16 oed. Ysgrifenedig. Dyddgwaith Iesu Grist gan D. J. Williams. Y Pedwerydd Gris, Tud. 30—52. Gwaith Dysgu ar Gof : Salm 42.

Safon IV. Dros 16 oed. Ysgrifenedig. Llawlyfr yr Ysgol Sul : "Cymdeithas Undodaidd" : "Prif Gymeriadau y Testament Newydd" Can y Parchedigion J. D. Jones, B.A., B.D. ; J. Marles Thomas, M.A. a Oswald Williams, M.A. Tud. 1—28.

Cynhelir yr Arholiad ar y Sadwrn cyntaf ym mis Mawrth, sef Mawrth 5ed, 1955. Penderfynwyd ar gynllun newydd eleni—sef bod y rhai sydd yn ysgrifennu yn eistedd yr Arholiad mewn dau ganolfan—Llwyn a Chapel-y-Groes.

Bydd y ddau Arholwr, Mr. Jones a Mr. Lewis yn mynd oddiamgylch y capeli fel arfer i holi'r ymgeiswyr yn y gwaith Llafar.

Bydd pob ysgol Sul yn cael gwybod yr amser rhyw bythefnos cyn yr Arholiad.

Gofynnir i bob ysgol Sul anfon nifer yr ymgeiswyr Llafar ac Ysgrifenedig i'r Ysgrifenyddes erbyn Chwefror 12, 1955.

Dedwyddfa, Llandysul. S. A. Evans.

Marwgofion

Ar Ebrill yr 11eg bu farw EVAN AERON, mab i'r diweddar Mr. a Mrs. Rees Williams, Springfield, Cribin, ar ôl cystudd hir a chaled, yn 49 mlwydd oed. Am rai blynyddoedd bu ef yn gewithio mewn pwll glo, ac ar ôl hynny agorodd fusnes yn y Central Garage, Tumble. Gedy ar ei ôl weddw, tri o blant, un chwaer a dau frawd (un ohonynt yw John Williams, trysorydd Capel-y-Cribin) ; hefyd neiaint a pherthnasau eraill. Claddwyd ef ar y 15 ym mynwent Pen-y-groes, a gweinidog y lle yn gwasanaethu. Cydymdeimlir yn ddwfn â'r teulu yn eu colled.

Dydd Sul y Pasg (19 Ebrill) yn Llanbedr, bu farw David, mab i'r diweddar Thomas a Maria Harries, Llwyncelyn, Cribin yn 73 oed. Y mae un chwaer wedi ei oroesi. Claddwyd ef ddydd Mercher, Ebrill 21, ym mynwent Capel-y-Cribin, a'r Parch. J. Islan Jones, M.A. yn gwasanaethu.

Ar y 14eg o Fai bu farw ANNE, gweddw y diweddar David Harris, Rhiwgoch, Aberayron yn 70 oed. Yn ddiweddar, gan adael fferm Rhiwgoch i'w mab David John a'i wraig, ymneilltuodd Anne Harries i Sea View at ei merch a'i mab-yng-nghyfraith, Mr. a Mrs. Thwaites, ac ar ôl triniaeth yn Ysbytai Aberayron ac Aberystwyth, yn Sea View y bu hi farw. Bu'r angladd ddydd Mawrth y 18fed a gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parchn. Ll. Ll. Jones, Peniel ; E. Price Jones, Llwyncelyn a J. Islan Jones, Llanbedr, ac yn Eglwys Hen Fynyw gan y Parchn. D. Davies, Ficer Aberaeron a Ll. Ll. Jones. Annibynwraig oedd Mrs. Harries, ond hanai ei phriod a fu farw saith mlynedd yn ôl, o deulu Undodaidd a ddioddefodd am ymladd dros ryddid. Ar ôl etholiad 1868 erlidiwyd Dafydd Harries o fferm Pentrerhys am iddo bleidleisio'n groes i orchymyn ei feistr tir. Cafodd Dafydd le i'w deulu yn Nhangaer, ac wedi hynny yn Lluast, Ciliau Aeron. Bu dyfod o'r teulu i'r ardal yn gaffaeliad mawr i Gapel Ciliau.

Ar y 14 o Ebrill bu farw ELIZABETH LEWIS, Caeglas, Llanwnnen, yn 63 blwydd, yn Ysbyty Aberystwyth ychydig o eiliadau wedi cyrraedd yno. Gweddw'r diweddar Benjamin Lewis ydoedd. Ni bu'n iach ers amser hir, ond ymdrechodd yn galed. Bu'n gweithio'n ddiwyd ar bwys ei ffon am flynyddau. Âi ei hachau'n ôl i wreiddiau Capel y Groes, pobl a fu'n cynnal yr achos mewn gwasanaeth ffyddlon, diswn. Ni chlyw yr enwad amdanynt. Dywedir am ei thadcu, John Davies, Cefncoed, pan fethodd â cherdded i'r Ysgol Sul, iddo fynnu cael ei gario mewn cart asyn i barhau ei wasanaeth cariad er gwaethaf ei lesgedd. Er iddi hi fethu â mynychu'r oedfaon, anogai ei phlant i fod yn barod eu gwasanaeth. Ac yr oedd ganddi groeso didwyll, syml, serchog yn ei chartref, yr ymdrechodd hi gymaint drosto. Gadawodd ddwy ferch a mab yn hiraethus ar ei hôl. Claddwyd hi ym mynwent Capel y Groes ar y 17 o Ebrill, y Parchn. T. Oswald Williams, S. E. Bowen ac A. J. Martin yn gwasanaethu.

Claddwyd EDMUND EVAN BARRY, Sunnybank, Aberaman ar y 3ydd o Fai ym mynwent Aberdâr ac yntau yn 87 oed. Yr oedd yn ganwr enwog yn ei ddydd a chydymaith llwyfan i wŷr fel Todd Jones a meddai ar lais tenor arbennig hyd at ei flynyddoedd olaf. Gŵr siriol, llawen ydoedd a mawr yw'r bwlch ar ei ôl. Gwasanaethwyd yn y tŷ ac ar lan y bedd gan ei weinidog, y Parch. D. Jacob Davies.

Yn yr un mis bu farw AGNES TILEY, cyn brifathrawes Ysgol Gynradd Hawthorn, Pontypridd yn Napier St., Aberpennar a hithau yn 86 oed. Yr oedd yn wraig o gymeriad arbennig a chofir yn hir am ei gweithredoedd dirgel, da i gynorthwyo'r tlawd ar adeg y dirwasgiad yng Nglyn Cynon ; rhoes esgidiau i'r anghenus a dillad i'r amddifad a'i chymdeithas fwyn i bawb. Lludwhawyd ei chorff yng ngwyddfa Glyntaf a'r Parch. D. Jacob Davies yn gwasanaethu yno ac yn y tŷ.

Priodasau.

Priodwyd EVAN GRIFFITHS LEWIS, Pantycruglas, Gorsgoch â SALLY DAVIES EVANS, Gwarllwyneidos, o flaen y Cofrestrydd yn Llanbedr, Mawrth 6.

Yn Eglwys Ein Harglwyddes o Fynydd Carmel ar y 24 o Ebrill, ymbriododdd THOMAS TERENCE QUAN ag ANNE MYFANWY EVANS, Bronhaf, Mydroilyn.

Newyddion yr Enwad

LLWYNRHYDOWEN.—Ddydd Gwener y Groglith anrhegwyd plant Ysgol Sul Llwynrhydowen am eu ffyddlondeb, a chafwyd gwledd flasus drwy garedigrwydd William James, Rhydcoedfoel.—Bu Llwynrhydowen yn ffodus iawn yn ddiweddar i gael moddion i wresogi'r capel. Costiodd dros ganpunt ac fe'u rhoddwyd gan Mrs. Jane Jones, Brynllefrith ; Misses Sarah ac Anne Davies, John a Daniel Davies, Pantmoch ; Richard Davies, Llwyndewi a Tom Davies, Gelliaur er cof am eu brawd, David Davies, Tynyfron.

YR EGLWYS GYMRAEG YN LLUNDAIN.—Nid heb achos y cwynodd Golygydd Yr Ymofynnydd yn ddiweddar ei fod heb glywed o Lundain ers llawer dydd, ond dyma air o'r diwedd. Mae bron blwyddyn wedi mynd heibio er pan y dechreuodd T. L. Jones ar ei weinidogaeth. Blwyddyn weddol o dawel a fu y flwyddyn hon, ond gwelsom beth cynnydd yn y gynulleidfa—mwy o ffyddlondeb ar ran y ffyddloniaid ond dim yn agos digon o ymdrech

gan yr addolwyr achlysurol i ddod yn ffyddloniaid ! Er hynny nid ydym fel rhai heb obaith ; gwelwn wynebau newydd ambell waith, ac y mae pawb sydd yn dod yn serchog ac yn hapus bob amser.—Cawsom grynhoad da iawn i wrando ar bregeth rymus y Parch. E. D. Davies yn y Cwrdd Diolchgarwch. Ychydig ar ôl y Nadolig cawsom barti i'r plant—am y tro cyntaf—a noson hapus dros ben oedd honno. Daeth ambell ymwelydd o Gymru yn ystod y flwyddyn. Mae'n anodd eu cofio i gyd, ond fe welwyd y Prif Athro J. D. Jones ryw noson yn y ' Whist Drive,' a llawen gennym oedd croesawu Mrs. Davies, Penbrynmawr ers tua mis yn ôl a chael gair o gyfarch ganddi. Dod i lan i Lundain i gynrychioli Urdd y Benywodd yng nghyfarfodydd y ' G.A.' a wnaeth Mrs. Davies ac aros dros y Sul er mwyn dod i'r Cwrdd Cymraeg. Yn ystod y cyfarfodydd cawsom glonc hefyd gyda'r Parch. S. Evans Bowen a'r Parch. J. Marles Thomas.—Nid tywydd teg i gyd a fu hi arnom yn y misoedd diwethaf hyn. Collasom Gadeirydd ac Is-Gadeirydd y gynulleidfa ar yr un pryd. Fe fu Dr. R. O. Jones yn Gadeirydd y gynulleidfa am un mlynedd ar bymtheg. Erbyn hyn mae ganddo swydd bwysig yng Nghymru ac yr ydym ni heb ei arweiniad doeth a'i weithgarwch diflino. Gobeithio yr ydym y bydd i'r Brifddinas ei alw yn ôl fel y cawn ninnau ei gwmni a'i gefnogaeth eto. Hefyd fe fynnodd ein Is-Gadeirydd, Mr. J. E. Jones a'i briod fynd yn ôl i Sir Aberteifi. Efallai y bydd iddynt hwythau i flino ar hamdden a dod yn ôl—pwy a ŵyr ? Ein Cadeirydd newydd ydyw Mr. Meredith Thomas o Gapelygroes, ac eisioes y mae wedi ymaflyd yn ei waith yn egnïol. Yr ydym yn falch ohono.—Mawr fu ein gofid a'n cydymdeimlad pan gollodd Mr. a Mrs. J. G. Jones, o Rydygwin, eu mab galluog mewn damwain tua diwedd yr haf. Trwm fu yr ergyd ac ni allwn ni ond teimlo drostynt. Blin oedd gennym glywed am farwolaeth y Parch. Lewis Williams ac yntau er maint ei oedran yn brysur gyda'i waith hyd y diwedd. Mynegodd y gynulleidfa ei chydymdeimlad â'r teulu yn y modd arferol.—Yn ddiwethaf i gyd—gair o gais. Fe fyddai yn gymwynas fawr i ni pe byddai gweinidogion neu ysgrifenyddion yr eglwysi yn Sir Aberteifi yn anfon i ni gyfeiriadau Undodiaid o Gymry sydd yn dod i fyw i Llundain am y tro cyntaf ac eraill sydd yma eisoes ond nad ydynt, hyd y gwyddom wedi bod yn rhoi tro amdanom gymaint ag unwaith.

BWLCHYFADFA.—Dydd Sul, Mai 16 cynhaliwyd ein Cymanfa Ysgolion (y Gymanfa fach), a daeth nifer dda o'r pedair ysgol ynghyd a'r diwrnod yn ffafriol iawn. Yr holwr eleni oedd y Parch. S. E. Bowen, Alltyplaca, a gwnaeth ei ran yn wir dda. Yn yr hwyr fe draddododd Anerchiad diddorol dros ben. Fe ddiolchwyd i Gapel y Fadfa am dderbyn y Gymanfa a hefyd am ofalu am luniaeth flasus gan Mr. Jenkin Morgan o'r Graig a Miss Evans, Gwarcefel Arms o Bantydefaid.

CILIAU AERON.—Traddodwyd Darlith ar "Dewi Emrys" gan y Parch. D. Jacob Davies, Aberdâr yma nos Wener, Ebrill yr ail. Daeth cynulliad da ynghyd ac fe aeth yr elw at yr achos. Yn absenoldeb y Cadeirydd apwyntiedig,

Mrs. L. W. Jenkins, Barclays Bank, Aberaeron, cadeiriwyd gan Ficer newydd y Ciliau.

URDD Y BENYWOD—RHANBARTH CEREDIGION.—Nawn Sadwrn y Pasg, cynhaliwyd y Pwyllgor Gwaith yn Rhydygwin o dan lywyddiaeth Mrs. Davies, Penbrynmawr. Cymerwyd y rhannau arweiniol gan Mrs. Harries, un o aelodau Cangen Rhydygwin a gwasanaethwyd wrth yr organ gan Mrs. Davies (Caerwilym). Er mai o tan gwmwl yr ymgynullem y tro hwn, eto'i gyd cawsom y fraint o ddatgan ein gwerthfawrogiad o ffyddlondeb y diweddar Barch. Lewis Williams i gyfarfodydd Urdd y Benywod a'n cydymdeimlad â Mrs. Williams, Mrs. Davies, y perthnasau eraill ac Eglwysi Rhydygwin a Chiliau. Apwyntiwyd y llywyddes yn gynrychiolydd i'r Cyfarfodydd Blynyddol yn Llundain, a thrafodwyd materion perthynol iddynt. 'Roedd hwn yn gyfarfod arbennig yn hanes y Mudiad yn y Sir, gan fod Mrs. Davies, Caerwilym yn dyfod i'w hoed fel ysgrifenyddes. Wrth gyflwyno ' Cloc Teithio ' yn anrheg iddi, dywedodd y Llywyddes na fu neb erioed yn fwy ffyddlon na hi, nid yn unig fel ysgrifenyddes, ond fel aelod gweithgar o Gapel Rhydygwin a'r Gangen yno. Ychwanegodd Miss S. H. Davies hefyd air o ddiolch ar ran yr aelodau am waith trylwyr am gyfnod maith o un mlynedd ar hugain, gan ddymuno iddi flynyddoedd eto i'n gwasanaethu. Yn ôl yr arfer, paratowyd gwledd hyfryd gan Aelodau Cangen Rhydygwin a diolchwyd iddynt gan Miss S. A. Jones, Llandysul a Miss Davies, Pantmoch.

CAERONNEN—CYRDDAU A PHENBLWYDD.—Derbyniwyd tri aelod newydd yn ddiweddar (Misses) Vera Jones, Tŷ Capel a Siriol Thomas, Trefannau a John Alun Jones, Cadwgan, yr olaf wedi dewis ymuno â chynulleidfa y bu ei gyndeidiau yn aelodau ohoni, er mai gyda'r Annibynwyr lleol y gwelir aelodau eraill o'r teulu yn addoli yn awr.—Yn ystod yr ail wythnos o fis Awst (Awst 10 a 11) bydd y gymulleidfa yn dathlu tri chan mlwyddiant yr Achos ac yma y bydd y Cyrddau Chwarter yr un pryd. Bwriada'r Parch. T. O. Williams gyhoeddi cyfrol fechan (yn costio tua 3/-) yn cynnwys hanes y capel erbyn y dathlu. Gwyddoch mai menter fawr yw cyhoeddi llyfr Cymraeg y dyddiau hyn a byddem yn wir ddiolchgar pe gallai rhyw berson ym mhob cynulleidfa ymgymryd a'r gwaith o gasglu enwau tanysgrifwyr a rhoi gwybod pa faint o lyfrau a geisir. Cynulleidfa fechan ydym a heb help Undodiaid ac eraill o bob cwrr a chapel, colled ariannol fydd dwyn allan gyfrol fel hon. Felly dylifed yr archebion yw'n cri, a chroeso i bawb i'r ŵyl drichan mlwyddiant.

"YR YMOFYNNYDD"—*Rhifyn Diwinyddiaeth yng Nghymru.*—Cafodd y rhifyn yma groeso brwd led-led Cymru a gwerthwyd mwy o gopïau ychwanegol y tro hwn na'r un tro arall yn ystod amser y Golygydd presennol. Derbyniwyd archebion oddi wrth ddegau o weinidogion a lleygwyr ac o bob Coleg Diwinyddol yng Nghymru. Mynnodd un o eglwysi'r Annibynwyr

ddeugain copi ! Y mae'r archebion heb beidio a dod eto ond yn anffodus dim ond nifer fechan sydd ar ôl heb eu gwerthu. Gwelsom gyfeiriadau ato yn y Wasg ; wrth gyflwyno dwy golofn o ddyfyniadau dywed *Y Goleuad* (papur y Methodistiaid), "*Gallwn argymell y traethiad golau hwn gan ŵr cyfarwydd ar bwnc sydd o'r pwysigrwydd mwyaf i arweinwyr meddwl yr Eglwys yn ein gwlad*". Meddai'r *Llanelly Mercury* : "*Hoffwn pe gellid fforddio gofod i roi amlinelliad manwl oherwydd mae'r pwnc yn haeddu sylw crefyddwyr ymhobman*". Bydd y Golygydd a'r awdur yn ddiolchgar os rhowch wybod am gyfeiriadau'r Wasg y digwyddwch eu gweld.

ARHOLIAD (Cywiriad).—Dylid rhoi seren wrth enw Hywel Davies o'r Hen Dŷ Cwrdd yn y rhestr a gyhoeddwyd ym mis Ebrill i ddynodi ei fod ymhlith y rhai a deilyngodd wobr.

RHODD ARALL.—Diolch yn fawr am £1 oddi wrth Mrs. Anne Evans, Coedmore Hall, Llanbedr. Samariad arall !

CAERDYDD.—Clywais gan aderyn bach fod eglwys West Grove yn bwriadu cynnal gwasanaeth Cymraeg unwaith y mis am 3.30 y prynhawn. Dyma newydd ardderchog a theilwng o bob cefnogaeth—ar unwaith ! Ni Synnwn glywed bod cymaint o ' Undodiaid ar Wasgar ' yng Nghaerdydd ag y sydd yn Llundain. A wyddoch chwi am rywrai ? Os felly, danfonwch yr enw a'r cyfeiriad i E. Davies, 79, Clare Road, Caerdydd.

CILIAU.—Y mae pulpudau Ciliau a Rhydygwin yn wag, gwaetha'r modd. Os carai unrhyw weinidog geisio manylion neu gynnig Sul, ysgrifenner at T. Jonathan, Hampton House, Ciliau-Aeron, Llanbedr neu Thomas Davies, Caerwilym, Felinfach, Llanbedr.

Y Cwpwrth Llyfrau

Y Pren Planedig ; Drama un act gan Gwilym T. Hughes, cyhoeddwyd gan Wasg Aberystwyth ; Pris 1/6. (5 Cymeriad).

Drama fer ail-fuddugol yn Eisteddfod Genedlaethol y Rhyl yw hon, ac fel yr awgryma'r teitl y mae'n seiliedig ar fywyd Ann Griffiths, yr eymynyddes. Digwydd y chwarae yng nghegin Dolwar Fach yn 1804, rhyw saith mis cyn marw'r emynyddes. Y mae'n ddrama hyfryd at wasanaeth pobl ifainc unrhyw gapel, a dyry oleuni gwerthfawr ar waith Ruth a John y ddau a fu'n cofnodi emynau enwog Ann. Y mae'r awdur i'w longyfarch am roddi cyfarwyddyd llawn ar sut i drin y llwyfan, y dodrefn a'r cymeriadau. Cofier mai ail-orau allan o chwech-ar-hugain oedd y *Pren Planedig*, gyda chanmoliaeth deilwng.

YR OFFERYN ; Ffars mewn tair act gan R. Gwynedd Jones (Gweinidog yr Annibynnwyr ym Mhencader erbyn hyn) ; Gwasg Aberystwyth, Pris 2/6.

Y MAE'R Parch. Gwynedd Jones yn ysgrifennwr dawnus dros ben, a llwyddodd i gyflwyno comedi ardderchog arall yn y ddrama hon. Gŵyr beth yw digrifwch, a gallwn ddychmygu hwyl cynulleidfa wrth weld stranciau Amelia Morgan ag Alfred y mab sydd ynghlwm wrth linyn ffedog ei fam. Naw cymeriad sydd yma, pum gŵr a phedair merch a phob un o'r cymeriadau hynny'n gredadwy. Os am ddrama boblogaidd dyma hi—gyda chymeradwyaeth uchel.

GWERIN. Dyma fydd teitl cylchgrawn cyd-wladol ar fywyd gwerin a gyhoeddir ar fyrder os ceir cefnogaeth iddo. Y Golygydd Cyffredinol fydd y Dr. Iorwerth C. Peate o Sain Ffagan, gyda gŵyr amlwg o Loegr, Ynys Manaw, Iwerddon, yr Alban a Chymru i'w gynorthwyo. Cyhoeddir dwy ran yn flynyddol, a'r rheiny tua 60 tud., pris 5/6. Os carech gynorthwyo'r antur ysgrifennwch air at y Dr. Peate, Castell Sain Ffagan, ger Caerdydd.

Y GWANWYN AR LÔN BELE.

MAE'N fendith dy weled ar frest y clawdd,
Ar frest y clawdd wedi dod yn ôl ;
Ynot, friallen, caf gip ar y nwyd—
Y nwyd sy'n torri ar fryn a dôl.

Bûm innau, hefyd, o'r golwg yn hir,
O'r golwg yn hir mewn tŷ yn y dref ;
Ac ynot, f'anwylyd, ar glawdd y lôn
Y gwelais ei liw, a gwrando'r lef.

Tybed a fuost fel minnau yn glaf,
Fel minnau yn glaf am fisoedd maith,
Ac yn ofni obry yn y pridd a'r nos
Dy fod yn agos at ben y daith ?

Daw rhywun, hwyrach, ar hyd y lôn,
Ar hyd y lôn heb dy weled di ;
Ond mwynach na dim yw dadeni'r nwyd
Ym mrest y clawdd a'm calon i.

Y Waunfawr, Aberystwyth. IFAN JONES.

"Ffugenwau y Puddlers".

Wele res addien o ffugenwau—rhai
O'r hil ddynol fodau ;
Gweithwyr tân purlan ein pau—ydynt
Mae nod arnynt mwy na'u dyrnau.

Yn freiniol cawn "Dan y Frwynen"—a "Bili"
Y baller anniben,
Sami Nel a Dai'r Belen
Twm Cardi a Bili Ben.

Hywel y Seswr a Wil Sosin—Dic Huws
A Dai coesau robyn ;
Ned yr Ysbryd ddiwyd ddyn—Sam Jaci
A Bob Harri yr hen babwyryn.

Lewsyn a Rhysyn o Rwsia—a Denis
A Wil dannedd rhaca,
Llwydaidd ddyn ond gŵr lled dda—mawr ei lw
Yw Dan yr Esgid, dyn o Risca.

Yn nesaf cawn Jo'r Hen Asyn—Iram
A Harry penfelyn.
Elias Goch a Lewis Gwyn—Leyshon
A Hasgood Eynon 'rhen sgadenyn.

Hoffi Lawrence a Phil Arw—Rhysyn
Mab Rhoser Tybedw ;
Hen Dderyn o Landdowrw
Gyda hyn, Dai Gwdihw.

Sami Trwyn a Dai Llwyni—Jac y Sais
Jac Sam a Ned Mari ;
Twm Lanygors a Dic Shorsi
Hywl 'rhen gôs a Wil 'rhen gi.

Shoni Whys potsh a Twm Cotshwr—Wil Ffreis
Dai Hôl y Frech a'r Barbwr,
Dai Deio Bilo, Twm Bowlwr,
Smash e Dai a Seim ishe Dŵr.

J. D. Lewis a'i Feibion Cyf., Argraffwyr &c., Gwasg Gomer, Llandysul.